



Gwers 23

Nehemeia



Cyfres Stori Duw

Nehemeia 1, 6, 10, 13



Nod:

Sylweddoli bod Duw yn dal i garu ei bobl, a dal yn cofio amdanynt er gwaetha'r pethau drwg y maent wedi weu gwneud, ac y maent yn dal i'w gwneud.

Adnodau:

Nehemeia 1, 6, 10, 13.

Gweithgaredd 1:

Rhannwch y dosbarth i barau neu grwpiau o 3. Bydd ar bob grŵp angen un copi o Atodiad 11, ewch dros y rheolau sydd ar y daflen cyn cychwyn y gêm.

Cefndir:

Cofiw'n yng ngwers wythnos diwethaf fod Duw wedi gadael i'r Babiloniaid gymryd gwlad yr Iddewon drosodd fel cosb oherwydd eu bod wedi anufuddhau iddo. Ond, ar ddiwedd y wers clywsom addewid y bydd y bobl yn dychwelyd i'w gwlad eu hunain ar ôl 70 mlynedd o fyw mewn gwlad estron. Erbyn stori Nehemeia roedd Esra yr Offeiriad wedi dychwelyd i Jerwsalem yn barod, ac wedi cychwyn ailadeiladu'r Deml, ond doedd y sefyllfa ddim yn dda iawn, gyda'r bobl o amgylch yn gwneud bywyd yn anodd iawn i'r Iddewon.

Darllen yr adnodau:

Darllenwch Nehemeia 1 fel dosbarth, pawb i ddarllen un adnod yr un.

Trafodaeth:

· Pwy oedd Nehemeia? (ad 1 ac 11) Iddew, a oedd yn rhan o'r Gaethglud. Ei swydd oedd drulliad i'r Brenin (blasu gwin y brenin cyn iddo'i yfed –rhag ofn!)

· Pam oedd Nehemeia eisiau mynd yn ôl i Jerwsalem? (ad 3) Oherwydd y newydd drwg oedd wedi ei glywed am y bobl a'r lle.

· Beth oedd ymateb Nehemeia i'r newydd drwg? (ad4) galaru a galw/gweddio ar Dduw.

Aralleiriwch chi'r hanes sydd ym mhennod 2:1-9 i'r dosbarth.

(Rhoddodd y brenin ganiatâd i Nehemia i fynd i Jerwsalem a'i ailadeiladu. Yn fwy na hynny rhoddodd geffylau a milwyr iddo fynd gydag o hefyd! Pwysleisiwch y ffaith mai 'trwy ffafr fy Nuw y cefais fy nymuniad gan y brenin' – drwy law Duw y digwyddodd hyn i gyd.

Rhannwch y dosbarth yn 3 grŵp, a gofyn i bob grŵp edrych ar un o'r hanesion canlynol. Mae pob un rhoi adroddiad byr o gynnydd yr Iddewon ar ôl cyrraedd yn ôl i'w gwlad. Gofynnwch iddynt adrodd yn ôl i bawb beth oedd prif bwyntiau'r darn.

1. Pennod 6:15-16 (Y mur o amgylch y ddinas yn cael ei orffen, gelynion Nehemeia yn rhyfeddu ac yn sylweddoli bod Duw wedi ei helpu i wneud y gwaith.)

2. Pennod 10:28-29 (Y bobl i gyd yn gwneud llw/ cytundeb i gadw deddfau a gorchmynion Duw.)

3. Pennod 13:6–8, 18 (Tra roedd Nehemeia i ffwrdd gyda'r brenin, fe aeth y bobl yn ôl i'w hen ffyrdd o anufuddhau i orchmynion Duw.)

Gweithgaredd 2:

Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm, gofynnwch iddynt adeiladu wal yr un, wal mor gadarn ac y gallent – yn debyg i wal Nehemeia. Gallwch wneud wal syml drwy ddefnyddio cwpanau plastig, neu ei wneud yn fwy cymhleth drwy ychwanegu, glud a/ neu tâp selo.

Er mwy profi'r waliau ar y diwedd, caniatewch i'r tîm arall rollo rhywbeth at y wal i weld a fydd yn ei wrthsefyll e.e. pêl sbwng.

Gweithgaredd 3:

Rhowch dasg i'r ddau grŵp, sef pwy all adeiladu'r tŵr uchaf. Byddant angen digonedd o bapurau newydd a thâp masgio. Anogwch hwy yn gyntaf i gynllunio sut maent am adeiladu'r tŵr cyn mynd ati i'w adeiladu. Ar ddiwedd amser penodol, mesurwch y ddau dŵr, y tîm gyda'r tŵr uchaf sy'n fuddugol.

Os oes mwy o amser ar y diwedd gallwch chwarae gweithgaredd 1 eto, gan newid y parau y tro hwn.

Amser Addoli:

Rydym wedi dysgu heddiw bod Duw yn Dduw llawn cariad a gras at ei bobl. Weithiau yn ei gariad mae'n cosbi a dysgu gwers i'w bobl, ond mae o bob tro er eu lles. Mae hyn yn

debyg i adegau pan fo rhieni neu athrawon yn ein ceryddu ni, er mwyn i ni ddysgu i fod yn bobl well. Diolchwch i Dduw am ein caru ni gymaint fel ei fod wedi rhoi pobl i edrych ar ein holau a'n dysgu sut i fod yn bobl well. Mae'n beth rhyfedd diolch am gerydd – ond dyma sut yr ydym yn dysgu gwersi pwysig. Amen